Recriwtio ein Myfyrwyr a'n Graddedigion

Prifysgol Abertawe
Swansea University



**"GWNAETH Y FFORDD YR YMGARTREFODD TOBY I'R HYN SY'N GALLU BOD YN AMGYLCHEDD GWYLLT IAWN WNEUD ARGRAFF FAWR ARNAF. ROEDD YN MYNEGI AC YN CYFLWYNO EI HUN FEL GWEITHIWR PROFFESIYNOL A OEDD WEDI HEN ARFER, YN HYTRACH NA FEL MYFYRIWR."**

# ASTUDIAETH ACHOS – INTERNIAETH

Aspire2Be

# Doniau sy'n Ysbrydoli

Prifysgol Abertawe
Swansea University

## Cefndir

Bu Toby Benson, myfyriwr o'r ail flwyddyn sy'n astudio gradd Rheoli Busnes (BSc), yng nghinio mawreddog blynyddol Academi Cyflogadwyedd Abertawe (SEA), lle cyfarfu â Mark Douglas a Jeremy Stephens o gwmni Aspire2Be a holi am brofiad gwaith gyda'r cwmni.

Cwmni Dysgu Technoleg yng Nghymru yw Aspire2Be (A2B), sy'n defnyddio methodoleg AI i greu datrysiadau digidol pwrpasol ar y cyd ar gyfer cleientiaid ym maes addysg, chwaraeon a busnes.

## Mynd i'r Afael â'r Her

Aeth Aspire2Be at Academi Cyflogadwyedd Abertawe i ddarganfod mwy am yr ystod o gyfleoedd interniaethau sydd ar gael iddynt ar ôl i natur benderfynol Tony greu argraff arnynt, ac roeddent yn awyddus i weld yr hyn y gallai ei gynnig i'w prosiectau cyfredol.

Ar ôl adolygu eu hopsiynau, cynigodd Mark a Jeremy interniaeth am bythefnos i Tony a ariannwyd yn llawn gan Academi Cyflogadwyedd Abertawe.

## Canlyniadau Llwyddiannus

Yn ystod ei interniaeth, cynhyrchodd Toby bapur cynhwysfawr am gymhwysedd digidol myfyrwyr. Mae hyn wedi rhoi mewnwelediad newydd i Aspire2Be ar yr heriau digidol y mae myfyrwyr yn eu hwynebu, a fydd gobeithio yn eu helpu i ddod o hyd i gyfleoedd newydd yn y sector addysg uwch.

Yn ogystal â rhoi profiad gwaith ymarferol a'i helpu i ennill hyder, roedd modd i Toby ehangu ei rwydwaith - y Rhwydwaith Entrepreneuriaid (y mae Toby'n llywydd arno) - yn ystod yr interniaeth. Trwy fanteisio ar gysylltiadau Aspire2Be, aeth Toby ar drywydd cyfle arall gyda Hyb Entrepreneuriaid NatWest, a gytunodd i gydweithio â'r Rhwydwaith Entrepreneuriaid i gynnig mwy o adnoddau i fyfyrwyr sy'n dewis cynnal eu busnesau eu hunain fel blwyddyn mewn diwydiant.

> “Cefais amser gwych yn ystod fy interniaeth yn Aspire2Be.Roedd hyn yn bennaf oherwydd athroniaeth y cyfarwyddwyr, sef y dylai fy amser yno fod o fudd i mi a'r cwmni. Gwnaethant ddweud wrthyf am gwblhau nifer o dasgau dymunol a diddorol, wrth roi'r rhyddid i mi fynd i'r afael â nhw yn y ffordd a oedd yn briodol yn fy marn i. Roedd y rhyddid hwn i wneud fy mhenderfyniadau fy hun yn werthfawr yn benodol oherwydd roeddwn i'n teimlo fy mod i'n cael fy nhrin fel gweithiwr proffesiynol, a bod fy sgiliau a'm mewnbwn yn cael eu gwerthfawrogi.”
>
> *Toby Benson*

> “Gwnaeth y ffordd yr ymgartrefodd Toby i'r hyn sy'n gallu bod yn amgylchedd gwyllt iawn wneud argraff fawr arnaf. Roedd yn mynegi ac yn cyflwyno ei hun fel gweithiwr proffesiynol a oedd wedi hen arfer, yn hytrach na fel myfyriwr. Yn sicr mae ganddo agwedd 'gallu gwneud,' y gallu naturiol i arwain prosiectau a'r awydd i ddysgu a datblygu ei wybodaeth ymhellach. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth y bydd Toby'n llwyddiannus iawn ni waeth pa lwybr proffesiynol y bydd yn ei ddilyn.”
>
> *Jeremy Stephens*

Os credwch y gallai'ch sefydliad chi elwa o gynnig lleoliad gwaith i fyfyriwr, cysylltwch â ni

01792 606060

business.enquiries@abertawe.ac.uk

www.abertawe.ac.uk/dawn